**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 13 Ionawr 2020 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | P K Jones |
| E T Kirchner | W G Lewis | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Rob Stewart Arweinydd/Aelod y Cabinet dros Economi a Strategaeth

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | C A Holley |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): G J Tanner a/ac W G Thomas
Aelodau Cyfetholedig Statudol: D Anderson-Thomas a/ac A Roberts
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: L R Jones a/ac J W Jones

---

## 89 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 90 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 91 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2019 a chofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

**92 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Cafwyd nifer o gwestiynau gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn canolbwyntio ar:

1) Y Fenter Dinas Parc Cenedlaethol
2) Prosiect Metro Bae Abertawe
3) Perthnasoedd rhwng Gweinidogion ac Arolygwyr Cynllunio - heriau statudol o dan A288 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
4) Gwreiddio Siarter y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wrth gyflwyno gwasanaethau.

Ymatebodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Brif Weithredwr i'r cwestiynau'n briodol. Byddai gwybodaeth bellach am yr heriau o dan a288 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cael eu darparu'n ysgrifenedig.

**93 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth (Y Cynghorydd Rob Stewart).**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad am brif benawdau Portffolio'r Economi a Strategaeth. Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr hefyd yn bresennol i gefnogi'r sesiwn Holi ac Ateb.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Safleoedd Blaendraeth - tir/datblygiad posib yn Langland
- Dinas Parc Cenedlaethol - meini prawf a phroses
- Brexit - y sefyllfa bresennol a'r effaith ar y cyngor; pryder dros golli arian a chefnogaeth ar ôl gadael yr UE a sicrhau cyfran deg o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a sicrwydd ariannu; trafodaethau lleol a chenedlaethol; defnydd parhaol o'r model busnes pum achos a'r anfanteision a Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi; risg parhaol os bydd Brexit heb gytundeb; cynnydd ar gyngor i weithwyr ar gynllun setliad y DU
- Cyflwyno'r rhwydwaith 5G - gofyniadau ar gyfer ei gyflwyno; angen posib am ragor o fastiau yn ogystal â dewisiadau amgen posib; buddion 5G; cyngor iechyd presennol o ran 5G a monitro parhaus; annibyniaeth y Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP)
- Argyfwng yr hinsawdd - cynnydd ers datganiad y cyngor ym mis Mehefin 2019 a chynllun gweithredu
- Sgwâr y Castell - diweddariad ac amserlen ar gyfer datblygiad Sgwâr y Castell
- Safle Cyflogaeth Strategol Felindre - buddsoddiad pellach neu'r potensial am dai; awydd i wella problemau traffig a thagfeydd ger cyffyrdd 44-47 yr M4 yn gynhwysol
- Gwaith Copr yr Hafod-Morfa - uwch gynllun newydd yn cael ei baratoi a chysylltiadau â phrosiect a chyfleuster hamdden Skyline ar fynydd Cilfái
- Llety i fyfyrwyr - cynllun Stryd Mariner a datblygiadau eraill yng nghanol y ddinas; yr effaith ar niferoedd Tai Amlfeddiannaeth; y lleihad dywededig yn nifer y myfyrwyr yn genedlaethol

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 94 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad.

Cyflwynodd y Cynghorydd Chris Holley y diweddariadau ar gyfer y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid (fel Cynullydd y Panel) a'r Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio (ar ran y Cynullydd, fel aelod y Panel). Tynnodd sylw'n benodol at gylch gwaith pob panel a'u gweithgareddau allweddol.

**Penderfynwyd** nodi’r diweddaraf.

## 95 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am 'Aelodaeth y Paneli a’r Gweithgorau Craffu’

**Penderfynwyd** ychwanegu'r Cynghorydd Steve Gallagher at Banel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol.

## 96 Rhaglen Waith Craffu 2019/20.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2019/20.

Bwriedid i Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda ac Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd fynd i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 10 Chwefror 2020.

Anogodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i ystyried meysydd pwnc cyn y cyfarfod.

Fel cynullydd y Gweithgor Craffu Twristiaeth, cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Jones at yr adroddiad am 'Ymatebion Aelodau'r Cabinet i'r Ymchwiliad Craffu ar Dwristiaeth a'r Cynllun Gweithredu’ a oedd yn gynwysedig yn yr agenda a oedd yn amlinellu ymateb y Cabinet i argymhellion y Gweithgor a'i gynllun gweithredu. Nodwyd na chytunwyd ar bob un o argymhellion y tîm craffu, yn bennaf oherwydd adnoddau. Nodwyd posibilrwydd mynd ar drywydd cynnydd yr argymhellion cytunedig ym mis Mawrth, gan y byddai Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth yn bresennol ar gyfer y sesiwn Holi ac Ateb.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 97 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Nodwyd** adroddiad y llythyrau craffu.

## 98 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).

Darparodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth gan ddweud ei bod yn bwriadu mynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 11 Chwefror 2020 i siarad am y rhaglen waith craffu.

**Nodwyd** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

**99 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.**

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.50 pm

**Cadeirydd**